

Cymdeithas Bob Owen

Y Casglwr

Pob Peth Printiedig

Rhif 59

Pris i aelodau: £5.00 y flwyddyn
Pris i'r cyhoedd: £2.50 y rhifyn

Gwanwyn 1997

Oherwydd costau ychwanegol
a chwyddiant, bydd
tansgrifiad y Gymdeithas
yn codi i £7.50 y flwyddyn o
Eisteddfod Genedlaethol
Meirion ymlaen.
Y pris i'r cyhoedd fydd
£3.50 y rhifyn.

Dafydd Guto ar drywydd llyfryn nad oedd wrth fodd pob hanesydd o Gymro

AR ddiwedd y bennod sy'n trin a thrafod gyrfa Owain Glyndŵr yn y llyfryn *Flame-bearers of Welsh History*, a werthwyd imi ddechrau mis Hydref eleni am dri deg darn o arian, dywaid Owen Rhoscomyl bod gwŷr addysgedig ei gyfnod yn chwilio'n benblethus am fedd yr arwr Cymreig ac yn methu â tharo ar fangre ei gladdu. Yna, yn y paragraff olaf, dywedir yn ddi-flewyn-ar-dafod: '*Gwyddys ble mae'r bedd — mae mewn man tra-hysbys. Nid yw gerllaw unrhyw eglwys, nac yng nghysgod unrhyw ywen hynafol. Man diogelach ac mwy cysegredig fyw ydyw. Ni ddisgyn cenllysg mwy na chesair, a g'law arno... Mae'n fythol wyrdd yng ngwyrddni'r gwanwyn tragwyddol...*'

Hyd yma, mae'r awdur a'i ddefnydd detholedig o eiriau megis *ywen* ac *eglwys* yn tywys y darlennydd ar hyd llwybr ryw arallfyd cysgodol, os meiddiaf arddel y fath gymhariaeth. Sylwer ar ei fedrusrwydd llenyddol, yr arddull goeth o'i eiddo, ei gynildeb — onid Dafydd ap Gwilym yn Ystrad Fflur a'r goeden enwog a ddaw i'r meddwl yn y disgrifiad o'r *ywen hynafol*? Mae'n llenor wrth reddf, yn gwybod sut i adeiladu o'r newydd â'i ddefnydd crai, sef geiriau. Medd y ddawn sicr yn ogystal i saernio'n gelfydd yr oil oddeutu'i feddylfryd, a'r ddelwedd o fedd Owain yn bywiogi oddi mewn ein meddyliau. Hanes wedi dyfod yn fyw sydd yma; nid memrwn wedi crebachu neu inc wedi troi'n llwch. Peri inni ddeffro'n feddylol a wna'r awdur; adfwio'r hyn sy'n llechu rhywle yr y fnder y meddwl a wna. Ac yna'r ergyd wleidyddol; y paent propaganda ar yr holl arwyddion a daenwyd ar odre'r ffordd; y proc a rydd i'r sawl a ddarllenno weledigaeth o'r newydd ac a wna iddo ddod yn ymwybodol o'i gefndir cenedlaethol. Yli, Cymraes/Cymro wyt ti. Cofia

hynny. Mae iti genedl ac iaith: '*Ni all amser ei gyffwrdd; nid yw pydredd yn ei ddianrhydeddu; oherwydd mae'r bedd hwnnw yng nghalon pob gwir Gymro.*'

Gwna ddefnydd o'r gair *Cymro*, ond yn anad dim arall saif brwydr Owain Glyndŵr yn dyst byw dros yfory. Effaith pori yn llyfryn Owen Rhoscomyl oedd canfod cenedlaetholdeb 1905 yn magu o ran ysbryd; y tân nas diffoddwyd ers canrifoedd er gwaethaf deddfau estronol ac addysg i'w figu.

Ychydig yn ôl mewn siop, yn ystod cyfnod llonydd, gwelais y perchennog, sy'n Gymro di-Gymraeg, yn ei gwman wrth y ddesg. Darllen *Land of My Fathers*, Gwynfor Evans, roedd o! Rhyw ddydd mi fydd, mawr obeithiaf, yn troi at gyfoeth y Gymraeg, ond mae eisoes yn ennill hyder mewn hyn o beth!

Yr hyn a gynigiodd gwaith Owen Rhoscomyl oedd gobaith; wrth graidd caniatáu hunan-lywodraeth i Gymru mi gredaf mae aberth miliynau o ferched a bechgyn dewr ein gwlad drwy'r canrifoedd. Ar sail eu haberth hwy dros eu gwlad, y dyliid rhoi hunan-lywodraeth i Gymru heddiw heb orfod ymddadlau'n agored ac yn aml ar yr ymylon dros ryw refferendymiau pitw!

Ym 1905 y cyhoeddwyd y llyfryn. Yn Arthog, yn Nyffryn Mawddach, Meirion, yr oedd yr awdur ar y pryd. Ond pwy oedd Owen Rhoscomyl. Cenedlaetholwr Cymreig? Un a oedd ar dân dros Gymru ei wlad?

Dyma beth sydd gan ei ferch i'w ddweud am ei thad, Owen Rhoscomyl, yn *Atodiad i'r Bywgraffiadur Cymreig Hyd 1940*: Enw mabwysiedig ei thad oedd Arthur Owen Vaughan. Ei enw bedydd oedd Robert Scourfield, mab Robert Mills a Jane Ann, merch Joseph Scourfield. Ganed yn Southport, Lloegr, 6ed Medi 1863. Priododd ei fam am yr eilwaith ar farwolaeth ei dad. Magwyd Owen Rhoscomyl gan

FLAME-BEARERS OF WELSH HISTORY

BEING THE OUTLINE OF THE STORY OF

'THE SONS OF CUNEDDA'

BY

OWEN RHOSCOMYL

AUTHOR OF 'THE JEWEL OF YNYS GALON' 'BATTLEMENT AND TOWER'
'THE HOUSE OF THE TWISTED SAEPLING' ETC.

SCHOOL EDITION

1905

THE WELSH EDUCATIONAL PUBLISHING CO.
MERTHYR TYDFIL

ei nain, un a hanai o Dremerchion. Owen oedd enw ei nain arno. Mabwysiadodd yr enw Arthur Owen Vaughan, a llunio'r enw 'Owen Rhoscomyl' drwy ddefnyddio Rho(bert) Sco(urfield) My(lne), y rhan olaf *Mylne*, cyfystyr â *melin* mewn Saesneg Canol. Bu yn Rhyfel y Boeriaid yn Ne Affrica. Priododd Catherine Lois (Katherine Louisa) de Geere ar lan afon Vaal oddeutu 21 Rhagfyr 1900, a bu hi fyw hyd 1927 ym Mhenarth ger Caerdydd. Bu farw Owen Rhoscomyl mewn ysbyty preifat yn Llundain, yn 56 mlwydd oed, ar 15fed Hydref, 1919. Yn y Rhyl y'i claddwyd.

Rhyw fraslun o'i hanes a geir uchod. Mae gwir angen hanes ei

fywyd yn ei gyfanrwydd gan ddileu am byth y mythau. Cynigiaf felly sialens i Gymry Cymraeg ddiwedd yr ugeinfed ganrif fynd ati i gronico, dethol a dadansoddi'n fanwl gywir hanes Owen Rhoscomyl.

RHAI O'I WEITHIAU LLENYDDOL
1895: *The Jewel of Ynys Galon*. Rhant hanesyddol, nofel.
1897: *The White Rose of Arno*. Rhant hanesyddol, nofel.
1905: *Flame-bearers of Welsh History*.
1912: *The Children of Don*. Drama ar y cyd â'r Arglwydd Howard de Walden, Castell Gwrych.
1915: *The Matter of Wales*. Llyfr hanesyddol.

(Parhad ar dudalen 2)